



# The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol  
Temple Quay House  
2 The Square  
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau  
Cwsmeriaid: 0303 444 5000  
e-bost : monaoffshorewindproject@  
planninginspectorate.gov.uk

Yr Ymgeisydd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Y  
Cydbwyllgor Cadwraeth Natur

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010137

Dyddiad: 15 Awst 2024

Annwyl Syr/Fadam

## Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'i diwygiwyd) - Rheol 17

### Cais gan Mona Offshore Wind Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Mona

#### Cais am ragor o wybodaeth

Rydym yn ysgrifennu o dan Reol 17 o Reolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'i diwygiwyd).

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC(C)) a'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) ill dau wedi nodi gwallau yn y cyfrifiadau, diffyg manylion angenrheidiol, a dulliau a pharmedrau gwahanol a ddefnyddir i'r hyn a ffafrir gan y Cyrff Cadwraeth Natur Statudol (SNCB) yn y dogfennau Datganiad Amgylcheddol (ES) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) yr Ymgeisydd. Er bod yr Ymgeisydd wedi darparu ymatebion i wallau a godwyd (ac wedi'u dogfennu yn y Daflen Errata [REP1-044]) mae'r Awdurdod Archwilio (ExA) yn gofyn am y wybodaeth ganlynol:

- Yr Ymgeisydd i ddarparu dogfennaeth AEA a HRA wedi'u diweddarau cyn gynted â phosibl ond heb fod yn hwyrach na **Dyddiad Cau 3 (30 Medi 2024)** i fynd i'r afael â gwallau cyfrifo a diffyg manylion a nodwyd gan CNC(C) a JNCC.
- Yr Ymgeisydd i ddarparu cyn gynted â phosibl ond heb fod yn hwyrach na **Dyddiad Cau 3 (30 Medi 2024)**, cyflwyniad ychwanegol yn cynnwys asesiad o effeithiau ar nodweddion adaregol (ar gyfer yr AEA a'r HRA) gan ddefnyddio'r dulliau a'r paramedrau a amlygwyd gan CNC(C) a JNCC yn ystod yr ymgynghoriad cyn ymgeisio, ac yn eu cynrychiolaeth berthnasol [RR-011; RR-033] a sylwadau ysgrifenedig [REP1-056; REP1-066 a REP1-067]. Dylai'r cyflwyniad ychwanegol hwn gynnwys asesiad ar y cyd gan ddefnyddio methodoleg arfaethedig yr SNCB ar gyfer llenwi bylchau mewn prosiectau hanesyddol.

- Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol ar gyfer Ynni (NPS EN-1) yn nodi y dylai Ymgeisydd ddarparu achos rhanddirymiad cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl a chyn diwedd yr archwiliad os yw SNCB yn rhoi arwydd wrth archwilio bod y Datblygiad Arfaethedig yn debygol o gael effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd cynefinoedd. Mae JNCC [RR-033][REP1-066] wedi datgan yn flaenorol na all gytuno â chasgliadau'r Ymgeisydd, yn enwedig mewn perthynas ag Ardal Warchoddedig Arbennig (AGA) Sgomer, Sgogwm a'r Moroedd oddi ar Sir Benfro/Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro. Mae'r ExA yn gofyn i CNC(A) a'r JNCC gadarnhau eu sefyllfa erbyn **Dyddiad Cau 2 (27 Awst 2024)** a oes modd diystyru effaith andwyol y tu hwnt i amheuaeth wyddonol resymol ar unrhyw safle Ewropeaidd.

Mae'n bosibl y bydd Partïon Eraill â Buddiant hefyd am ymateb i'r cais hwn.

Yr eiddoch yn gywir

*Caroline Jones*

### **Aelod Arweiniol y Panel o Arolygwyr Archwilio.**

Nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.

Darllenwch ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#) cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.